



Gweithwyr gofal preswyl i blant ar y Gofrestr – 1 Ebrill 2020



Beth yw'r pwyntiau allweddol?

Mae gweithwyr gofal preswyl i blant wedi cofrestru gyda ni ers **2008**

Mae **2,975** o weithwyr wedi cofrestru, sef cynnydd o gymharu â **2,894** y llynedd

Mae'r gweithwyr yn **38** oed ar gyfartaledd

Gall gweithwyr gofal preswyl i blant sydd heb gymhwyso eto gofrestru ar ôl cwblhau naill ai Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan neu Ddyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal Cymdeithasol Cymru



Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

Mae nifer y gweithwyr gofal preswyl i blant ar y Gofrestr wedi cynyddu **37%** yn y pum mlynedd ddiwethaf

Mae canran y gweithwyr ar y Gofrestr sydd wedi cymhwyso wedi gostwng o **58%** yn **2015** i **47%** eleni

Mae'r ganran sy'n gweithio yn y sector preifat, gan gynnwys asiantaethau recriwtio, wedi cynyddu o **68%** yn **2015** i **75%** eleni



Faint sydd wedi ymuno â'r Gofrestr a'i gadael?

Ymunodd **651** o weithwyr â'r Gofrestr a gadawodd **570** yn y flwyddyn ddiwethaf

O'r rhai a adawodd y Gofrestr, tynnwyd enwau **72%** ohonynt gan na wnaethant gynnal eu cofrestriad

Gofynnodd **9%** o'r ymadawyr am dynnu'u henw gan nad oeddent yn gweithio mewn gofal preswyl i blant yng Nghymru mwyach

Roedd **29** gweithiwr wedi newid i rôl rheolwr gofal preswyl i blant



Pa gymwysterau sydd gan weithwyr?

Mae gan **28%** o weithwyr gymhwyster presennol y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau

Mae gan **19%** gymhwyster cyfwerth derbyniol

Nid yw **53%** o weithwyr wedi cymhwyso eto ac maent wedi cofrestru gan ddefnyddio'r fframwaith sefydlu



Ymhle mae gweithwyr yn cael eu cyflogi?

Mae **75%** yn gweithio yn y sector preifat

Mae **19%** yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Mae **5%** yn gweithio yn y trydydd sector

Mae **23%** o weithwyr wedi bod yn eu rôl bresennol ers mwy na phum mlynedd

Dechreuodd **57%** o weithwyr yn eu rôl bresennol yn y tair blynedd ddiwethaf



Beth yw proffil y gweithwyr?

Mae **1,805** yn fenywaidd a **1,170** yn wrywaidd

38 yw oedran cyfartalog y gweithwyr

Mae **95.5%** o weithwyr yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu'n wyn Gwyddelig

Mae **39%** o weithwyr yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu Gymraeg rhugl

Mae **1.7%** o weithwyr yn ystyried eu bod yn anabl